**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**7:30YH 19EG GORFFENNAF 2023**
**CYNHALIWYD YNG NGWYTHERIN**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD), Sara Thomas (ST), Euros Williams (EUW), Austin Roberts (AR) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG).

**1.3** Ymddiheuriadau: Einir Williams (EW), Myrddin Davies (MGD), Jane Roberts (JR) & Gwydion Jones (GJ).

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

## 3 COFNODION I'W GWIRIO 28AIN MEHEFIN 2023

Cynnigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan ST.

## 4 MATERION YN CODI

**4.1 CWG**:

Bil Dŵr Cymru wedi ei dalu, mi wnaethant gynnig gosod debyd uniongyrchol i fyny ar y ffôn. Dal heb glywed yn ôl gan HSBC ers i bawb arwyddo.

Awdit blynyddol - wedi bod yn e-bostio Iona i weld beth yw'r diweddaraf a heb glywed yn ôl felly wedi bod draw yn ei swyddfa heddiw ac mi wnaeth Iona lenwi'r gwaith papur ac wedi dychwelyd y ffolderi i CWG.

Coed yn y Rheithordy - AR am ofyn i Emyr Jones (yr adran briffyrdd) i asesu os yw'r coed yn y rheithordy yn achosi problem i drafnidiaeth. CWG wedi cysylltu gyda Carys Thomas i roi'r diweddaraf.

Ceir wedi eu parcio yn y Fedwen Arian - Austin wedi cynghori CWG i gysylltu gyda'r PCSO lleol felly CWG wedi gyrru neges. Elin wedi cysylltu yn ôl ac yn holi am fwy o wybodaeth, CR wedi ei roi iddi. Elin yn fodlon mynychu pwyllgorau. CR yn nodi fod y PCSO Elin wedi bod allan a gan fod y ceir wedi eu trethu yna nid oes dim y gallent ei wneud.

Cyfraniad i garreg fedd T.Hugh William - Emrys Williams yn aros am bris a bydd yn cysylltu gyda CWG pan fydd wedi ei dderbyn.

Cyrsiau - fyddech chi'n hapus i CWG fynychu 1 neu 2? £38 y sesiwn - pawb yn cytuno gyda hyn.

Hysbysebu digwyddiadau - CWG gyda thudalen hysbysfwrdd personol ar *Facebook* ac eisiau holi os fyddai pawb yn hapus i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau e.e. clwb drama dros yr haf sydd wedi cyrraedd ar e-bost? Pawb yn cytuno gyda hyn a dim angen gofyn am ganiatâd i bod un.

Cyfarfod Pwyllgor Un Llais Ardal Conwy a Sir Ddinbych, 7.00yh Dydd Mercher 26 Gorffennaf 2023 ar *zoom* - DR a CWG am fynychu, EW wedi ymddiheuro na fydd yn gallu.

Rheolau Sefydlog a model brotocol datrysiadau lleol -CR, EW a MD wedi cwrdd (gyda CWG yn teipio) i drafod y Rheolau Sefydlog nos Fercher 12.7.23. Wedi eu haddasu ond y cwestiynau isod yn codi ac felly CWG wedi gofyn i Un Llais am arweiniad. Dyma'r cwestiynau ac ymatebion (mewn coch):

- Eitem 12 f) Doedd y pwyllgor ddim yn siŵr os oedd hyn yn golygu ar gyfer y cyfarfod sydd wedi bod neu ar gyfer yr un sydd am fod? Eitem 12F Cyfarfod sydd wedi bod.
- Eitem 23. - Sêl Gyffredin - beth yn union yw hyn ac ydi o'n berthnasol i Gyngor Cymuned? Yn draddodiadol, cadarnhaodd Cynghorau brydlesi, gweithredoedd ac ati trwy eu selio. Mae rhai yn dal i wneud. Yn y rhan fwyaf o Gynghorau dyddiau yma, mae dau gynghorydd yn llofnodi'r ddogfen fel yn 23b

Hefyd mi wnaeth Un Llais rannu templad o bolisi *GDPR* i allu ei ddilyn.

**AV**: Soniodd bod angen torri mwy ar y clawdd o gwmpas yr arwydd 20 m.y.a yn Llangernyw. Mae DR wedi bod wrthi yn ei dorri, MD am edrych arno. Hefyd, mae AV wedi cael pris paentio ciosg Gwytherin ond mae angen trydan. EUW am holi i weld os ydi'r *Lion Inn* yn fodlon rhedeg gwifren.

**4.2** Lleoedd lleol ar gyfer natur - CWG wedi ymchwilio mewn iddo ac mae dipyn o waith i'w wneud gyda'r cynllun ac angen sicrhad ei fod am fynd yn ei flaen am o leiaf 5 mlynedd. DR yn awgrymu'r darn o dir o gwmpas yr ysgol ac AR yn dweud i ofyn i'r cyngor am ganiatâd. DR yn sôn efallai bod modd cael yr ysgol i gymryd rhan. CWG i ddanfon y wybodaeth i bawb ar e-bost.

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**
**5.1** Cais Rhif 0/50904: Dolwen Bach, Llangernyw LL22 8RR
Pawb yn cytuno gyda dim sylwadau.

**5.2** Cais Rhif 0/50916: Bryn Hafod Farm, Gwytherin LL22 8YF

Ymateb EW oedd wedi ei yrru o flaen llaw: Dwi'n cofio mynd i Fryn Hafod pan yn ferch fach, ar yr adeg roedd Bob a Hannah Alice yn byw yno, ac fe roedd y tŷ yn gartref iddynt. Mae gennai góf o'r lle tan haearn du a'r setl bren oedd wrth y bwrdd bwyd yn yr ystafell fyw, eitemau doeddwn i byth yn weld mewn cartrefi eraill mwy modern yn niwedd y 70'au dechrau'r 80'au. Fel mae un o'r adroddiadau yn ddatgan, doedd y ty ddim wedi ei foderneiddio yn yr oes honno. Rwy'n grediniol nad oedd erioed yn fwriad gan neb ei adael i fynd a'i ben iddo, dim ond bod amgylchiadau'r perchnogion ar y pryd ddim yn caniatau i ddatblygiad fynd ymlaen.
Fel rhywun sydd wedi byw o fewn tafliad carreg o Bryn Hafod rhan fwyaf o'm oes, hoffwn i ei weld yn gartref unwaith eto yn hytrach na cholli un o anheddau hanesyddol arall yn ardal yng Ngwytherin.
Pawb yn cefnogi.

**6 MATERION CYNGOR**
**6.1** Tybiau blodau - AV wedi paratoi beth sydd angen ar gyfer mis Hydref ac yn cynnig fod y pwyllgor amgylchedd yn cymryd drosodd o rŵan ymlaen. DR yn sôn nad oes dim arian ar ôl gan fod £108 wedi ei wario a dim ond £100 oedd yn y *precept*. CR yn cynnig defnyddio arian etholiad (£2,500 ar gael) - angen tua £75 ar gyfer y blodau. Pawb yn cytuno i symud yr arian etholiad.

**6.2** Llain blodau - Fe wnaeth AV gyfarfod heddiw efo Iwan ym mynwent Llangernyw i weld y llain sydd heb ei dorri. Roedd wedi dotio at y 3 darn sydd heb ei dorri yng ngwaelod y fynwent ac yn gweld fod yna lawer o weirach a blodau yno sydd yn wych ar gyfer pryfetach, gwenyn a glöyn byw. Felly fel Cyngor Cymuned dylem fod yn falch iawn o fod wedi cadw'r safle yma ar gyfer byd natur gan nad yw ansawdd y pridd yn rhy dda felly mae'n wych ar gyfer ei gadw. Fel yr aiff y blynyddoedd yn eu blaen fe fydd yna fwy o amrywiaeth ac yn denu gwahanol rywogaethau i'r safle. Beth am y dyfodol? Beth yw'r opsiynau? Fe allwn gael torri'r gwellt rŵan a'i adael ar y compost yn y gwaelod. Torri darn ohono rŵan a'i hel, yna darn arall mis nesa ayb fel bod yna amrywiaeth yn y tyfiant. Neu gofyn i rywun ei dorri a'i gario oddi yno i geffylau? Neu os oes yna rywun efo llain debyg yn yr ardal mi fedrwn gasglu'r hadau oddi yno a'u gwasgaru ar y tir yma ar ôl ei dorri a'i glirio. MD yn cynnig torri a chompostio'r cwbl ym mis Medi. AV yn sôn fod angen edrych ar y compost hefyd gan wella'r *sheet* sinc a thynnu gwifrau rithod. Pawb yn cytuno.

**6.3** Canllaw Gweithredu Hinsawdd a Natur - penderfynwyd i drafod hyn yn y pwyllgor llwybrau ac amgylchedd nesaf. Bydd angen i CWG drefnu iddynt gyfarfod yn fuan.

**7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

AR am fynd ar ei ôl y torri gwair yng nghae chware Pandy Tudur. Mae'r Cyngor wedi torri yng nghae chwarae Gwytherin ond gyda *strimmer*. Y polisi yw torri gwair yn y caeau chwarae bob 3 wythnos. Mae archwiliad wedi bod ddoe ar bont Pandy Tudur oedd yn dangos ychydig o ddirywiad ond y cerrig heb symud a ddim yn cael ei ystyried yn beryglus. Bydd archwiliad arall yn niwedd Medi/dechrau Hydref.
Coed yn y Rheithordy - Emyr am biciad yno ac os yw o yn ystyried yn beryglus yna mi wnaiff yr adran ERF gysylltu i ofyn i'r perchnogion eu torri.
Bin halen gyferbyn a'r toiledau yn Llangernyw - AR wedi ei roi ar wefan yr ERF i gael ei wneud. Mae'n siŵr y bydd un newydd erbyn mis Hydref.
DR wedi gofyn am fin halen i Barc Aelas - AR wedi gofyn am fan yno a Fedwen Arian. Conwy wedi gwrthod oherwydd bod un gyferbyn â Glan Collen.
Petryal - wedi cysylltu gyda Peter Wood yn yr adran reoleiddio - dim record o gais wedi ei roi i mewn. Mae'n rhaid iddo gael tystiolaeth ei fod wedi ei adeiladu er mwyn ei wneud yn llety gwyliau e.e. hysbysebu ar y we.
AV yn dweud fod coed clawdd yr ardd goffa yn Llangernyw angen eu torri.

**8 MATERION ARIANNOL**

Parhau i aros am TAW i ddod i mewn a hefyd yr arian llwybrau.
1.6.23 - siec AV, bonyn siec a chofnodion yn dangos £85.80 ond £85.30 sydd wedi mynd allan yn ôl yr adroddiad banc.

**9 GOHEBIAETH**

Dim wedi dod i law.

**10 BILIAU**

Enlli -£180 - £90 yr un i gyfieithu cofnodion mis Mai a Mehefin
HMRC - bil £227.20 hyd at 5.7.23
D. Evans - torri a chlirio'r ardd gerrig - £120
D.Evans - torri'r gwair yn y fynwent - £450

Cytunwyd i dalu'r uchod i gyd.

**11 MATERION LLEOL**

**AV** yn cynnig y dylid cael llun o'r cynghorwyr. CR yn gofyn i ni wneud hyn ym mis Medi. Hefyd, cynigiodd fod EUW yn cynrychioli Gwytherin ar y pwyllgor mynwentydd, cytunodd EUW. Atgoffodd hefyd bod angen sortio'r biniau bagiau baw ci.
**DR** yn sôn fod y cae yn ymyl yr ysgol yn gyfle gwych ar gyfer coed ffrwythau ac fel perllan gymunedol. Bydd angen trafod mwy ar hyn yn y pwyllgor nesaf.

**12 CYFARFOD NESAF**

Medi 27ain 2023 ym Mhandy Tudur.
Cyfarfod yn dod i ben am 9:10y.h.
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.